# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2021

Amser: 09.01 - 09.34

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Caroline Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Busnes yr wythnos hon**

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw’r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.40pm.

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at wahanol ychwanegiadau i Fusnes yr Wythnos Hon, gan gynnwys atal Rheolau Sefydlog dros dro ddwy waith er mwyn caniatáu i rai eitemau gael eu cynnal:

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Strategaeth Frechu COVID-19 (45 munud)
- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog Dros Dro (5 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud)
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020
- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog Dros Dro (5 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (30 munud)

Byddai'r amser ar gyfer y ddadl ar y gyllideb yn gostwng o 90 munud i 60 munud, a’r amseroedd unigol ar gyfer yr Aelodau a'r Gweinidog yn cael eu haddasu’n unol â hynny.

Nododd y Rheolwyr Busnes fod dadl Grŵp y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio wedi'i gohirio tan yr wythnos nesaf.

*Rhith-gyfarfodydd*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y bydd y Cyfarfod Llawn yn parhau i fod yn rhithwir am y tro.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 19 Ionawr 2021**

- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Papur Gwyn ar Gyfundrefn Diogelwch Adeiladu (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg: Adrddiad Blynyddol Estyn 2019/20 (45 munud)
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021 (15 munud)

- Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (15 munud)

**Dydd Mawrth 26 Ionawr 2021**

- ~~Dadl: Cyfnod 3 y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) (180 munud)~~ – *gohiriwyd tan 10 Chwefror*

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes, tra mae'r Cyfarfodydd Llawn yn parhau'n rhithwir, bydd holl ddadleuon prynhawn Mercher yn 30 munud o hyd, oni bai bod y Cadeirydd yn cyflwyno'r achos dros ddadl 60 munud. Am y cyfnod hwn, bydd pob cyfraniad gan Aelodau ar wahân i'r rhai sy'n agor neu'n cau yn 3 munud yn hytrach na 5.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 20 Ionawr 2021 –**

- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~
- Amser a neilltuwyd i Grŵp y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio (30 munud)

**Dydd Mercher 27 Ionawr 2021 –**

- Penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro (15 munud)
- ~~Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)~~
- Dadl Fer – Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mercher 3 Chwefror 2021 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Clyw fy nghân: Ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (30 munud)

- <u>Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (30 munud)</u>
- ~~Dadl Fer – Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru) (30 munud)~~
- <u>Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)</u>

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor Busnes y rheoliadau.

### 4.2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020

Nododd y Pwyllgor Busnes y rheoliadau.

### 4.3 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Nododd y Pwyllgor Busnes y rheoliadau.

### 4.4 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor Busnes y rheoliadau.

### 4.5 Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 25 Ionawr fel terfyn amser adrodd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 4.6 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 25 Ionawr fel terfyn amser adrodd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 4.7 Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 1 Chwefror fel terfyn amser adrodd i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 4.8 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 1 Chwefror fel terfyn amser adrodd i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 4.9 Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 8 Chwefror fel terfyn amser adrodd i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### 4.10 Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 18 Ionawr fel terfyn amser adrodd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 18 Ionawr fel terfyn amser adrodd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

## Unrhyw faterion eraill

### Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Masnach

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chyfeirio’r  Cynnig i graffu arno gan fod y ddadl ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach heddiw.

### Cyfarfodydd Pwyllgorau

Cyfeiriodd y Llywydd at gyfarfodydd rhithwyr pwyllgorau yn ystod toriad a'r goblygiadau i'r Comisiwn o ran adnoddau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu Rheol Sefydlog 17.46.

**Dyddiadau toriadau**

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau ar gyfer hanner tymor mis Chwefror:

*Dydd Llun 15 Chwefror – Dydd Sul 21 Chwefror 2021*

**Cyfarfod Ychwanegol 18 Ionawr**

Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hysbysu gan y Llywydd o'r agenda ar gyfer y cyfarfod ychwanegol cyntaf ar 18 Ionawr:

**Papurau i'w hystyried am y tro cyntaf**

- Brexit (Rheolau Sefydlog 21 a 26)
- Comisiynwyr a sub judice
- Deddfwriaeth – Biliau Cydgrynhoi

**Papurau i'w hystyried am yr ail/trydydd tro**

- Grwpiau, maint ac Aelodau yn newid
- Adalw
- Adolygiad o Weithdrefnau Busnes Cynnar